**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
SeneddIechyd@senedd.cymru

Mark Isherwood AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
SeneddCCGG@senedd.cymru

6 Chwefror 2024

Annwyl Russell a Mark

Ysgrifennais atoch fis Tachwedd diwethaf a chytunais i roi diweddariad ar y fframwaith goruchwylio ac uwchgyfeirio. Fel yr ydych yn ymwybodol eisoes, cafodd y fframwaith ei ailgyhoeddi gennyf ar 22 Ionawr 2024. Gellir dod o hyd iddo yn Fframwaith Goruchwylio ac Uwchgyfeirio.

Cyflwynwyd y fframwaith uwchgyfeirio ac ymyrryd blaenorol yn 2014 yn dilyn argymhellion blaenorol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Ers ei gyflwyno, mae'r tri phartner – Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilio Cymru – ynghyd â'r sefydliadau iechyd, wedi dysgu gwersi drwy ddarparu'r trefniadau a'u gweithredu. Mae llawer o bethau wedi newid o ganlyniad i'r hyn a ddysgwyd. Mae peth arwyddion bod y trefniadau presennol yn dangos rhywfaint o dystiolaeth o welliannau ymhlith y byrddau iechyd hynny sy'n destun camau uwchgyfeirio.

Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud ar y Fframwaith hwn. Mae'r fersiwn sydd wedi'i diweddaru yn adeiladu ar yr ymgysylltu a gafwyd a'r adborth a dderbyniwyd dros y blynyddoedd diwethaf – drwy gyfrwng gweithdai, holiaduron a thrafodaethau â sefydliadau'r GIG. Roedd y broses adolygu yn cynnwys asesiad o'r prosesau sydd ar waith yn Lloegr a'r Alban, ac mae wedi nodi nifer o feysydd yr oedd angen mynd i'r afael â nhw gan gynnwys:

- Mae angen diweddaru'r fframwaith uwchgyfeirio ac ymyrryd presennol.
- Nid yw'r meini prawf ar gyfer isgyfeirio wedi'u diffinio'n glir bob amser. Mae angen fframwaith a dangosyddion ariannol clir sy'n pennu ar ba lefel o'r fframwaith y dylid gosod pob sefydliad a beth sy'n sbarduno camau isgyfeirio.
- Mae angen pennu lefelau cymorth a gweithredu cliriach ar gyfer pob lefel o'r fframwaith.
- Mae gormod o bwyslais yn y system bresennol ar wasanaethau iechyd acíwt – yn hytrach nag ar 'y system gyfan'.
- Nid oes digon o bwyslais ar ddod at 'wraidd' yr anawsterau (er mwyn sicrhau bod yr ymateb mwyaf priodol/effeithiol yn cael ei fabwysiadu).

- Gellir ei ddehongli fel ymateb cosbol yn hytrach na chefnogol (‘yn cael ei wneud i'r’ Byrddau yn hytrach na thrwy weithio gyda nhw).
- Dim dewis i Fyrddau fynd ati eu hunain i geisio cefnogaeth.
- Ansawdd / argaeledd pecynnau cymorth priodol (dod o hyd i’r sgiliau perthnasol).

Mae cynrychiolwyr o sefydliadau'r GIG a'r tri sefydliad partner wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar y fersiynau drafft o'r fframwaith diwygiedig ac, lle yr oedd hynny yn briodol, mae eu sylwadau a'u hawgrymiadau wedi'u hymgorffori yn y ddogfen derfynol.

Mae'r fersiwn sydd wedi'i diweddaru yn adeiladu yn helaeth ar yr hyn a ddysgwyd a phrofiadau'r byrddau iechyd sydd wedi bod o dan fesurau arbennig. Mae'r fframwaith goruchwylio ac uwchgyfeirio yn nodi'r amgylchedd statudol y mae'r fframwaith yn gweithredu ynddo, gan gynnwys dolenni i'r fframweithiau cynllunio a pherfformiad. Mae'n nodi'r broses a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gael sicrwydd ynghylch cyrff y GIG a sut y mae'r broses ar gyfer uwchgyfeirio ac isgyfeirio yn gweithio. Mae hefyd yn nodi'r parthau (sy'n seiliedig ar y safonau ansawdd) y mae pob sefydliad yn cael ei asesu a'i herio yn eu herbyn. Ceir yn y fframwaith hefyd lefel uwchgyfeirio newydd – “lefel 2”. Diben y diweddariad hwn yw galluogi Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG i weithio gyda'r bwrdd iechyd mewn modd rhagweithiol er mwyn osgoi camau uwchgyfeirio ffurfiol.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon am y sefyllfa ddiweddaraf yn ddefnyddiol. Rhowch wybod imi os oes angen unrhyw wybodaeth arall arnoch am y materion hyn.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services